MAURICE, WILLIAM (bu farw 1680), hynafiaethydd a chasglwr llawysgrifau

Enw: William Maurice
Dyddiad marw: 1680
Priod: Elisabeth Maurice (née Ludlow)
Priod: Lettice Maurice (née Kynaston)
Plentyn: Lettice Gethin (née Maurice)
Plentyn: Ann Williams (née Maurice)
Rhiant: Jane Maurice (née Holand)
Rhiant: Lewis Maurice
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hynafiaethydd a chasglwr llawysgrifau
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Evan David Jones

Mab Lewis Maurice, a ddisgynnai o deulu Moeliwrch, Llansilin; a Jane, merch John Holand, ficer Cegidfa (1586-1639). Treuliodd ei oes yng Nghefnybraich a'r Ty Newydd ar Gynllaith, ym mhlwyf Llansilin. Dywedir iddo godi adeilad arbennig o dri llawr, a elwid ' Y Study,' i gadw'r llyfrgell.

Yr oedd yn ddigon cefnog i gasglu llyfrau a llawysgrifau, i gyflogi copïwyr, ac i dreulio'i amser i gopïo ac astudio llawysgrifau. Yn yr astudiaethau hyn ystyriai maiRobert Vaughan, Hengwrt, oedd Gamaliel iddo. Gweithiodd lawer yn Hengwrt a gwnaeth gatalog o'r llawysgrifau a oedd yno. Daeth rhai llawysgrifau Cymraeg pwysig i'w feddiant yntau, megis Llyfr Gwyn Hergest, a gollwyd mewn tân yng ngweithdy llyfr-rwymwr yn Covent Garden yn 1810, a'r llawysgrif cyfraith a gafodd gan ei gâr, Meredith Lloyd, Bryn Elen (Wynnstay MS. 36). Copïodd swm mawr o farddoniaeth Gymraeg a gwnaeth astudiaeth arloesol ar destunau cyfraith Hywel yn ei ' Deddfgrawn ' neu ' Corpus Hoelianum ' (Wynnstay MSS. 37-8), yn 1660-3. Ymddiddorai yn hanes cynnar Cymru a'r Celtiaid, ac ysgrifennodd lythyr ar Brennus i Robert Vaughan yn 1662 (Wynnstay MS. 12). Nid anwybyddodd broblemau ei oes ei hun, ac yn 1653 ysgrifennodd draethawd yn erbyn allor-addoliad (Wynnstay MS. 12), gan feirniadu gwaith y Dr. George Griffith, esgob Llanelwy yn ddiweddarach, a Richard Jervis, ficer ei blwyf ei hun, a dywedir iddo wneuthur cronicl o ddigwyddiadau'r Rhyfel Cartrefol yng Ngogledd Cymru. Rhestrir dros 100 o lawysgrifau a fu yn ei feddiant, neu a ysgrifennwyd ganddo, gan Evan Evans (llawysgrif Panton 72).

Bu'n briod ddwywaith: (1) â Lettice, merch Roger Kynaston, Cefn-y-carneddau, ger y Bont Newydd, Rhiwabon, o ferch ac aeres Roger Eyton o'r lle hwnnw. Ohoni hi cafodd dri mab a fu farw'n ieuainc, a dwy ferch - Ann, gwraig David Williams, Glan Alaw, brawd Syr William Williams, Llefarydd Ty'r Cyffredin, a Lettice, gwraig Roger mab Thomas Gethin, Maesbrwc; (2) ag Elisabeth Ludlow, merch George Ludlow, Morehouse, a gweddw Thomas Gethin; ac ohoni hi cafodd un ferch, Elizabeth, a briododd George Jukes, y Trallwng. Yn 1678 bu ganddo ran yn ymgais Syr William Williams i brynu llyfrgell Hengwrt.

Claddwyd ef yn Llansilin, mewn gwth o oedran, 23 Mawrth 1680. Gadawodd ei lyfrgell i'w ferch Lettice. Prisiwyd hi gan Edward Millington, allan o restr, yn werth £60 yn 1682, a gwerthwyd hi i Syr William Williams. Fe'i cadwyd yn Llanforda hyd oddeutu 1771, pryd y cymerwyd y rhan fwyaf ohoni i Wynnstay, ac yno mewn tân, 5-6 Mawrth 1858, y collwyd bron y cyfan. Ar wahân i'r llawysgrifau a nodwyd eisoes, y prif rai yn llaw William Maurice sy'n aros yw Llanstephan MS 15 , Llanstephan MS 31 , Llanstephan MS 54 a Llanstephan MS 197 . Defnyddiai ar brydiau orgraff arbennig iddo'i hun, ac nid oedd un llawysgrif yn ddigon gwerthfawr yn ei olwg i'w gadw rhag ei hanurddo â'i ysgrifen glogyrnaidd.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog, iv, 252

Oxford Dictionary of National Biography

The Cambro-Briton, i, 379-80

Llawysgrif Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 143, 234

NLW MS 732B; NLW MS 1505D (418)

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ii, 26-36

Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales, I, xvi-xx

Reports of the Historical Manuscripts Commission

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 58568927

Wikidata: Q18718872

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jones, E. D., (1953). MAURICE, WILLIAM (bu farw 1680), hynafiaethydd a chasglwr llawysgrifau. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 16 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MAUR-WIL-1680

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLYFRGELL
THE NATIO